**Pwyllgor Materion Ewropeaidd EUR-01-01(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31 Ionawr 2001 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Pwyllgor 4 |
| **Teitl:** | Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol |

## Diben

Rhoi gwybodaeth gefndir i'r Pwyllgor am Siarter Ddrafft yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol, gan gymryd i ystyriaeth benderfyniadau a wnaed yn yr Uwchgynhadledd yn Nice.

Ceir copi o ddrafft terfynol y Siarter yn nogfen 1.

## Cefndir

Ym mis Mehefin 1999 galwodd y Cyngor Ewropeaidd yn Köln am lunio Siarter Hawliau Sylfaenol er mwyn gwneud yr hawliau hynny'n fwy amlwg. Corff o'r enw'r *Convention* sydd wedi drafftio'r Siarter hon. Roedd yn gorff unigryw, o'r tu allan i strwythurau arferol yr Undeb Ewropeaidd (yr UE), ac yn cynnwys 15 cynrychiolydd o'r Aelod Wladwriaethau, 16 ASE, 30 o gynrychiolwyr seneddau cenedlaethol ac un Comisiynydd. Yr Arglwydd Goldsmith CF oedd cynrychiolydd personol y Prif Weinidog. Cynrychiolwyr Senedd y DU oedd Win Griffiths AS a'r Arglwydd Bowness. Cyfarfu'r *Convention* yn rheolaidd rhwng mis Rhagfyr 1999 a mis Hydref 2000. Dosbarthodd ei ddrafft terfynol ar 2 Hydref ac fe'i derbyniwyd gan y Penaethiaid Llywodraeth yng Nghyngor Anffurfiol Biarritz ar 13-14 Hydref.

Mae'r Siarter yn cynnwys Rhagair a 54 erthygl wedi'u rhannu'n Benawdau ar Urddas, Rhyddidau, Cydraddoldeb, Undod, Hawliau Dinasyddion, Cyfiawnder a Darpariaethau Cyffredinol. Mae'r Darpariaethau Cyffredinol yn arbennig o bwysig gan eu bod yn darparu bod y Siarter yn berthnasol i Aelod Wladwriaethau pan fyddant yn gweithredu cyfraith yr UE yn unig; nad yw'r Siarter yn creu unrhyw dasgau na phwerau newydd ar gyfer yr UE; y bydd hawliau'r Siarter sy'n seiliedig ar Gytundebau'r CE/UE yn cael eu harddel o dan yr amodau ac o fewn y terfynau a ddiffinnir yn y Cytundebau hynny; ac y bydd gan hawliau'r Siarter sy'n cyfateb i hawliau'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yr un cwmpas ac ystyr â'r hawliau cyfatebol hynny. Pwynt pwysig arall yw bod llawer o ddarpariaethau economaidd a chymdeithasol y Siarter ynghlwm wrth gyfraith y Gymuned a chyfraith ac arferion cenedlaethol.

## Cwmpas y Siarter

Bwriad y Siarter yw gwarchod hawliau sylfaenol unigolion yn erbyn camau y mae sefydliadau'r Undeb a'r Aelod Wladwriaethau'n eu cymryd wrth weithredu cytundebau, a gwneud yr hawliau sylfaenol sy'n bodoli eisoes yn fwy amlwg i'r dinasyddion. Mewn egwyddor, bydd y Siarter yn dwyn at ei gilydd yr hawliau sylfaenol hynny a gydnabyddir yng nghytundebau'r Gymuned, yn yr egwyddorion cyfansoddiadol sy'n gyffredin i'r Aelod Wladwriaethau, yn y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn siarteri cymdeithasol yr UE a Chyngor Ewrop.

Ni all y *Convention* benderfynu p'un a ddylai'r Siarter fod â grym cyfreithiol neu a ddylai fod yn ddatganiad yn unig. Dim ond Cyngor Ewrop all wneud hyn. Serch hynny, penderfynodd y *Convention* ddrafftio'r Siarter ar ffurf y gellir ei ddefnyddio fel testun deddfwriaethol os bydd angen.

Mae Senedd Ewrop o blaid ymgorffori'r Siarter yn y cytundebau er mwyn iddo rwymo'r Gymuned yn gyfreithiol ac er mwyn i bawb a ddiogelir ganddi i gael yr hawl i ofyn i Lys Cyfiawnder yr UE orfodi'u hawliau.

**Sefyllfa Llywodraeth y DU**

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi Siarter yr UE; mae'n dwyn ynghyd yn yr un lle ystod o hawliau, rhyddidau ac egwyddorion a gydnabyddir o fewn yr UE, ac yn eu gosod ar ffurf hawdd ei ddeall.

**Uwchgynhadledd Nice**

Cyfarfu Cyngor Ewrop yn Nice ar 7, 8 a 9 Rhagfyr 2000 a chroesawyd y cyd-ddatganiad a gafwyd gan y Cyngor, Senedd Ewrop a'r Comisiwn, o'r Siarter ar Hawliau Dynol, gan gyfuno mewn un testun yr hawliau sifil, gwleidyddol, cymdeithasol economaidd a chymdeithasol a oedd o'r blaen wedi'u nodi mewn amrywiaeth o ffynonellau Ewropeaidd Rhyngwladol neu genedlaethol. Hoffai Cyngor Ewrop weld y Siarter yn cael ei dosbarthu mor eang â phosib ymhlith dinasyddion yr Undeb. Yn unol â chasgliadau Köln, caiff grym y Siarter ei ystyried yn hwyrach.

Bu i'r 15 Pennaeth Llywodraeth "ddatgan yn ddifrifol " 53 erthygl y siarter, sydd wedi'i llunio i wneud yr hawliau presennol yn "fwy amlwg" i ddinasyddion cyffredin y UE ac i roi elfen foesol i gorff sydd heb roi sylw amlwg i hawliau dynol yn y gorffennol.

**Ystyriaeth**

Cafodd y Cynulliad ei rwymo'n gyfreithiol gan y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ers ei sefydlu, a bydd holl awdurdodau cyhoeddus y DU yn cael eu rhwymo yn yr un modd ar 2 Hydref eleni wrth i hawliau'r Cytundeb gael eu hymgorffori yng nghyfraith y DU.

Mae Siarter yr UE yn adeiladu ar hawliau'r Cytundeb ac yn cynnwys hawliau eraill, er enghraifft parch at yr unigolyn (Erthygl 3); rhyddid i gynnal busnes (Erthygl 16); hawl pobl i loches a chael eu hamddiffyn rhag eu hanfon allan o'r wlad (Erthyglau 18 a 19). Mae'n cynnwys hawliau i blant (Erthygl

24) a’r henoed (Erthygl 25) a darpariaethau ehangach ar gydraddoldeb yn gyffredinol. Ceir rhai o’r hawliau mwyaf dadleuol ym Mhennod IV ar Undod sy’n cynnwys hawliau yn y gwaith.

Nid yw’r Siarter yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr Aelod Wladwriaethau, fodd bynnag, os nad oes ganddo statws cyfreithiol. (Pe bai ganddo’r statws hwnnw, fe’i bwriedid i fod yn berthnasol pan fo’r Aelod Wladwriaethau’n gweithredu cyfraith yr UE yn unig). Serch hynny mae’r Comisiwn Ewropeaidd (yn ogystal â Senedd Ewrop) yn dwyn pwysau i ymgorffori’r Siarter yng Nghytundebau’r Undeb.